OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 690 (Cy. 188)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU
# LLYGREDD MOROL, CYMRU

## Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Mehefin 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Gorffennaf 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Gorffennaf 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) ("Deddf 1972") mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf 1972.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Gorffennaf 2016.

### Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**4**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) mewn perthynas ag unrhyw fater os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw, neu at unrhyw ddiben os ydynt wedi eu dynodi at y diben hwnnw.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**3**) O.S. 2010/1552.

(**4**) O.S. 2011/559 (Cy. 81).

(2) Yn erthygl 3 (dehongli), yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" ("*the Waste Framework Directive*"), ar ôl "Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff" mewnosoder ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127(**5**)".

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2016

(**5**) OJ L 184, 11.7.2015, t. 13.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011"), sy'n cynnwys cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ L 312, 22.11.2008, t. 3.) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff").

Mae angen y diwygiad a wneir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn er mwyn gweithredu diwygiadau i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a wneir gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127 dyddiedig 10 Gorffennaf 2015 sy'n diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yng Ngorchymyn 2011.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol, o ran Cymru, o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.